# Y Nodau Llesiant ac Adnoddau Dynol

Ein blaenoriaethau yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yw hyrwyddo cydraddoldeb a chryfhau gwytnwch y celfyddydau. Felly, rhaid inni gydweithio'n fwy effeithiol a dychmygus â'n partneriaid.

Mae nodau llesiant y Ddeddf i'w gweld yn ein blaenoriaethau corfforaethol a strategol.

## Cymru lewyrchus o gymunedau cydlynus



Mae cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel yn defnyddio ei hadnoddau'n effeithiol a darbodus. Mae'n esgor ar bobl fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth a chynnig swyddi.

Cyflogwn **83.5%** o'n staff ar gontract parhaol. O'r 16.5% o'n staff ar gontract cyfnod penodol, mae 50% ohonynt yn gweithio ar y rhaglen Dysgu Creadigol sy'n ddibynnol am ei pharhad ar gael arian o hyd gan Lywodraeth Cymru.

Cefnogwn ein staff i chwilio am gyfleoedd dysgu a datblygu fel secondiad mewnol ac allanol a hyfforddiant anffurfiol a ffurfiol.

Ers dechrau'r pandemig, mae'n staff yn gweithio gartref neu mewn lleoliadau eraill i ffwrdd o'n swyddfeydd. Mae'n debyg y parhawn â ffordd gyfunol o weithio gyda'n staff yn gallu rhannu eu hamser gwaith rhwng ein swyddfeydd ac unrhyw le arall. Cafodd hyn effaith wych ar ein hôl troed carbon a helpu cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.



## Cymru fwy cyfartal



**Galluogi pobl i gyflawni eu posibiliadau ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae tlodi'n parhau'n her i ni a'r cenedlaethau a ddaw ar ein hôl. Mae pobl â nodweddion gwarchodedig dan anfantais o hyd mewn sawl maes gan gynnwys gwaith, cyfranogi, addysg ac iechyd.**

Cydnabyddwn y gwerth o gael gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli holl gymunedau Cymru. Roedd cyflawni hyn yn her ond bydd Adnoddau Dynol yn parhau i weithio gyda'r Asiant er Newid i adolygu ein proses recriwtio. Mae eisiau gwneud rhywbeth mwy na gosod hysbysebion yn y mannau cywir.

Gweithiwn ar gynlluniau prentisiaeth a Kickstart sy'n rhoi arian i greu swyddi newydd i bobl ifanc 16-24 oed ar Gredyd Cynhwysol sydd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor. Rydym wedi rhoi swydd felly i gynorthwyo ein Hasiant er Newid am 6 mis.

## Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu






**Hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Angen integreiddio diwylliant a'r Gymraeg ag amcanion eraill.**

Anogwn bob aelod o staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg. Ariannwn yn llawn yr holl hyfforddiant Cymraeg a rhoddwn amser i ffwrdd â thâl am hyfforddiant sy'n digwydd yn ystod oriau gwaith.

Yn 2021/22, dechreuodd neu ailddechreuodd **23%** o'n staff gwrs Cymraeg o Lefel Mynediad hyd Uwch.




## Cymru iachach

**Gwella lles corfforol a meddyliol pobl a deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i'n hiechyd.**

**Rydym ni'n:**

- **cynnig i'n holl staff yn rhad ac am ddim raglen gymorth i weithwyr;**
- **cynnal grŵp Lles y Staff lle hyfforddir aelodau i gynnig Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i'n staff;**
- **cynnig mynediad i Glwb Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil a chynllun iechyd i gael arian yn ôl;**
- **cefnogi staff sy'n absennol oherwydd salwch drwy roi 6 mis o dâl llawn ac wedyn 6 mis ar hanner cyflog;**
- **talu i staff gael y brechlyn ffliw blynyddol;**
- **mynd i gyflwyno Cynllun Beicio i'r Gwaith yn 2022.**

